**LC1157**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

# Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) 2005

Diben y Rheoliadau yma yw rhoi ei effaith i Benderfyniad y Comisiwn 2005/598/EC. Mae hwnnw'n gwahardd rhoi ar y farchnad gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid buchol a anwyd neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 at unrhyw ddiben ac yn esemptio anifeiliaid o'r fath rhag mesurau rheoli a difodi penodol a geir yn Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 (OJ Rhif L204, 5.8.2005, t.22).

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r diffiniad o "Rheoliad 999/2001" yn rheoliad 2(1) yn cyfeirio at y diwygiad diwethaf gan Reoliad 932/2005. Erbyn hyn, mae diwygiad mwy diweddar wedi'i wneud, drwy gyfrwng 1292/2005, ac fe ddylai'r cyfle gael ei gymryd i gynnwys y ddeddfwriaeth ddiwygio ddiweddaraf wrth i'r Rheoliadau cyfredol gael eu gwneud. Gall problem o'r fath gael ei hosgoi drwy ymdrin ag offerynnau diwygio yn y troednodyn, er mwyn eu cadw'n gyfoes wrth i'r broses ddeddfu fynd yn ei blaen. Yn y diffiniad Cymraeg, ceir gwall teipograffyddol lle mae un 9 ar goll o'r term sy'n cael ei ddiffinio. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae "bwyd pobl" wedi'i ddiffinio yn rheoliad 2(1), ond mewn mannau eraill yn y Rheoliadau "bwyd i bobl" sy'n cael ei ddefnyddio. Fe fyddai'r ddau yn gywir, ond os oes term wedi'i ddiffinio mae'n bwysig defnyddio'r term hwnnw yn gyson drwy gydol y Rheoliadau. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn rheoliad 3(1), mae paragraffau (a) a (b) wedi'u cyplysu â "neu", ac ar y sail honno mae'n ymddangos bod effaith (b) yn llawer ehangach na'r hyn a fwriadwyd. Yn y rheoliadau cyfatebol sydd wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr yn ddiweddar, "and" sydd wedi'i ddefnyddio, ac mae'n ymddangos mai "a" fyddai'r cysylltair priodol er mwyn rhoi Penderfyniad y Comisiwn ar waith. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 7(a)(ii), mae blwyddyn y Rheoliadau wedi'i rhoi yn anghywir fel 1995 yn lle 1994. Yn y paragraff canlynol, mae blwyddyn y Rheoliadau hynny'n cael ei rhoi yn anghywir fel 1994 lle dylai fod yn 1995. Yn y ddau achos, mae'r testun Saesneg yn gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wallau drafftio neu wallau teipograffyddol yw pob un o'r rhain a byddai'n briodol eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae rheoliad 9 yn dirymu Rheoliadau Cig Ffres (Rheolaethau Cig Eidion) (Rhif 2) 1996. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn honno, cafodd set o reoliadau diwygio ei gwneud, sef rheoliadau y mae eu heffaith yn cael ei dirymu gan y Rheoliadau cyfredol. Byddai wedi bod o gymorth pe bai'r Rheoliadau Diwygio wedi'u dirymu'n ffurfiol hefyd.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor hefyd wedi nodi un mân bwynt sy'n ymwneud â fformadu a all gael ei gywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 18 Hydref 2005